



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)



COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER

AHGTAEM

Awst 2020

## **PARTH: Plismona'r Ffyrdd:** Archwiliad o blismona'r ffyrdd yng Nghymru a Lloegr

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gan y Prif Gwnstabl Mark Collins a minnau.

Yr wyf yn hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys, fel heddlu, yn cydnabod yr heriau mawr y mae Plismona'r Ffyrdd yn cynrychioli, a medraf eich sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn deall y galw presennol o gwmpas Plismona'r Ffyrdd o fewn ein cymunedau'n dda iawn, yn dilyn yr argymhellion o fewn yr adroddiad.

Mae ffocws penderfynol ar Blismona'r Ffyrdd. Cyfeirir ato o dan y pennawd 'Cadw ein cymunedau'n ddiogel' yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd:

- Hyrwyddo gweithgareddau ac ymgyrchoedd diogelwch y ffyrdd er mwyn mynd i'r afael â phum prif achos gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol; goryrru, alcohol, cyffuriau, defnyddio ffôn symudol a pheidio â gwisgo gwregys diogelwch
- Cyllido cynlluniau diogelwch y ffyrdd a fydd yn mynd i'r afael ag ymddygiad ac agweddau ymhlith gyrwyr
- Ymgysylltu gyda grwpiau defnyddwyr y ffyrdd i helpu codi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch y ffyrdd ac annog cymunedau i gymryd rhan mewn mentrau diogelwch y ffyrdd
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i sicrhau bod pob math o ddefnyddwyr ffyrdd, gan gynnwys beicwyr, marchogion a cherddwyr, yn ddiogel ar ein ffyrdd;
- Monitro'r galw, amseroedd ymateb a chwynion er mwyn sicrhau bod gan yr Uned Plismona'r Ffyrdd adnoddau digonol a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws yr Heddlu.

Er mwyn cynorthwyo â chyflenwi'r blaenoriaethau uchod, mae gan HDP Swyddog Diogelwch y Ffyrdd. Mae'r proffil rôl yn cynnwys:

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

- Dadansoddi data anafedigion gyda golwg ar adnabod tueddiadau perygl uwch
- Cydlynu Ymgyrchoedd Diogelwch y Ffyrdd a drefnir gan yr Heddlu, gan gynnwys Ymgyrchoedd Plismona'r Ffyrdd sydd â thema atal Gwrthdrawiadau/Diogelwch
- Ymchwilio a chyflwyno adroddiadau ar broblemau Diogelwch y Ffyrdd penodol sy'n cael eu dwyn i sylw'r Adran
- Ymgymryd ag ymchwil a phrosiectau Diogelwch y Ffyrdd

Mae HDP wedi datblygu partneriaeth waith effeithiol gyda'r sefydliad GanBwyll, sydd â'r feddalwedd sydd ei hangen i ddadansoddi lleihau gwrthdrawiadau yn ffurfiol yn y lleoliad.

Mae'r swyddogaeth ddadansoddi'n cynnwys:

- Dadansoddydd swyddfa reoli sy'n gyfrifol am adrodd canolog, gan gynnwys lleihau cyflymder a gwrthdrawiadau wrth safleoedd, perfformiad unedau symudol, perfformiad y swyddfa docynnau ganolog a pherfformiad isadeiledd safleoedd sefydlog
- 4 dadansoddydd uned ar gyfer pob gwasanaeth heddlu sy'n gyfrifol am ddadansoddi a dethol safleoedd
- Y mecanweithiau adrodd sydd wedi'u sefydlu yw'r adroddiad blynyddol, adolygiadau safle a'r pecyn perfformiad misol. Mae angen cadarnhau hyn.
- Mae materion o gwmpas cyflenwad data gwrthdrawiadau gan heddluoedd.
- Defnyddir meddalwedd trydydd parti hefyd ar gyfer proffilio MOSAIC, ond mae'n hen oherwydd mae'n dibynnu ar ddata'r Adran dros Drafnidiaeth. Tanddefnyddir hyn gan bartneriaid.
- Mae data'n cael ei fwydo i gydweithwyr UPFF drwy sianeli presennol. Mae hyn wedi'i wella lle mae GanBwyll yn bresennol adeg pennu tasgau Gweithrediadau Arbenigol neu debyg, ond nid yw'n berthnasol ar gyfer pob heddlu.

Fel rhan o'r berthynas waith lwyddiannus hon, datblygwyd Ymgyrch SNAP yng Nghymru, gyda staff Uned Plismona'r Ffyrdd HDP yn cefnogi GanBwyll i ymdrin â throseddwyr Ymgyrch SNAP yn ogystal â chasglu cudd-wybodaeth. Wrth i'r galw gynyddu, mae'n debygol y bydd adnoddau (lefelau staff) angen cynnydd, a fydd yn cael ei gyfeirio o gyllideb GanBwyll a'i gefnogi gan HDP.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n fodlon bod yr adnoddau a bennwyd ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol yn Nyfed-Powys yn ddigonol. Ar hyn o bryd, mae gan HDP 61 swyddog UPFF ar draws y pedair sir ddaearyddol (mae hyn yn cynnwys 5 rhingyll UPFF). Rhennir y gweithlu hwn, a benderfynwyd ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl i siroedd penodol a'r materion bygythiad, perygl a niwed a nodwyd, fel a ganlyn -

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

- Sir Gaerfyrddin – 19 Cwnstabl ac 1 Rhingyll.
- Sir Benfro – 13 Cwnstabl ac 1 Rhingyll.
- Ceredigion – 10 Cwnstabl ac 1 Rhingyll.
- Powys – 20 Cwnstabl a 2 Ringyll.

Yr ydym yn sylweddoli nad oes gan HDP weithlu llawn ar hyn o bryd oherwydd swyddi gwag sydd wedi codi wrth i bobl ymadael yn naturiol ac wrth i swyddogion gael eu dyrchafu i rolau eraill o fewn y sefydliad. Gan hynny, yr ydym wrthi'n recriwtio ar hyn o bryd ac yn gobeithio y bydd pob swydd wedi'i llenwi o fewn Uned Plismona'r Ffyrdd yr Heddlu erbyn yr hydref yn 2020.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n fodlon bod gan HDP drefniadau partneriaeth effeithiol mewn grym, gan gynnwys cytundebau rhannu cudd-wybodaeth briodol gydag asiantaethau priffyrdd perthnasol. Mae HDP wedi sefydlu perthnasau partneriaeth gyda'r pedwar awdurdod lleol, Asiantaethau Cefnffyrdd, Llywodraeth Cymru a'r DVLA/DVSA. Mae UPFF HDP hefyd yn gweithio'n rheolaidd ag asiantaethau eraill megis Safonau Masnach, Mewnfudo a Lles Anifeiliaid, gydag ymgyrchoedd amlasiantaeth rheolaidd yn cael eu datblygu.

Yr ydym yn ymwybodol bod rhai argymhellion y mae'n rhaid inni barhau i'w datblygu, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cymorth lles priodol yn cael ei roi i ymchwilydd arbenigol a swyddogion cyswllt teulu sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i wrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol.

Ar hyn o bryd, dim ond un Cydlynnydd Cyswllt Teulu Marwolaethau ar y Ffyrdd sydd gan HDP, fodd bynnag, mae hyn yn ychwanegol i'w rôl fel rhingyll yr Uned Ymchwilio i Wrthdrawiadau Difrifol. Yn 2018, hyfforddodd HDP 4 Ymgynghorydd Cyswllt Teulu newydd, fodd bynnag, dim ond un ohonynt sy'n weithredol ar hyn o bryd. Mae gan HDP 52 Swyddog Cyswllt Teulu Marwolaethau ar y Ffyrdd hyfforddedig. Ar hyn o bryd, mae 31 ohonynt yn weithredol a lleoladwy.

Mae cyfrifoldeb ar gyfer lles a rheoli'n aml yn syrthio ar Ymchwilydd Arweiniol Marwolaethau ar y Ffyrdd, sydd wedi lleoli'r Swyddog Cyswllt Teulu, ac fel heddlu, byddwn yn gweithio i wella cymorth lles ar gyfer swyddogion cyswllt teulu.

Ar hyn o bryd, nid oes gan HDP unrhyw gynllun hyfforddi achrededig mewn grym ar gyfer swyddogion UPFF presennol neu newydd. Mae swyddogion UPFF newydd yn derbyn llyfr gwaith i gynorthwyo â dysgu 'ar y swydd'. Mae HDP wedi cynnal cyrsiau hyfforddi Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

achlysurol ar gyfer swyddogion UPFf dros y bum mlynedd ddiwethaf. Cynhaliwyd y rhain pan nodwyd prinder sgiliau. Pan fod angen, mae arbenigwyr pwnc wedi dod mewn i'r heddlu er mwyn cyflwyno'r hyfforddiant.

Enghreifftiau o gyrsiau a gynhaliwyd:

- Cyrsiau archwilwyr cerbyd C10
- Hyfforddiant gyrru'n gyflym ar y ffordd
- Ymchwiliadau Marwolaethau ar y Ffyrdd ar gyfer cwnstabiliaid
- Hyfforddiant tacograff
- Ymgynghorydd Tactegol Erlid
- Hyfforddiant gyrru ac yfed/cymryd cyffuriau

Mae gan HDP Uned Hyfforddi Gyrwyr sefydledig sy'n cyflwyno'r holl hyfforddiant gyrru achrededig ac angenrheidiol ar gyfer pob swyddog UPFf. Yn ogystal â hyn, mae swyddogion UPFf dethol yn derbyn hyfforddiant beic modur, pwysigion a hyfforddwyr. Byddai HDP yn elwa o gwrs plismona'r ffyrdd mwy ffurfiol a diffiniedig ar gyfer pob swyddog sy'n ymuno â'r adran.

Fel swyddfa Comisiynydd, yr ydym yn gweithio'n agos â'r elusen genedlaethol Brake ac yn cyfrannu'n ariannol tuag at ei llinell gymorth genedlaethol ar gyfer Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd ar sail flynyddol. Mae Brake yn cefnogi dioddefwyr gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd, ac yn ystod y cyfnod diwethaf, cefnogodd 36 achos ar draws Heddlu Dyfed-Powys drwy ei llinell gymorth, rhoddodd 48 pecyn galar i deuluoedd dioddefwyr gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd, a rhoddodd gyflwyniad hyfforddi i'n swyddogion cyswllt teulu.

Heb os, gellir gwneud mwy i gefnogi a datblygu Plismona'r Ffyrdd yn ardal Dyfed-Powys, ac rydym yn parhau i asesu a gwerthuso ein gwasanaeth presennol. Yr wyf yn hyderus y bydd ffocws parhaus Heddlu Dyfed-Powys yn y maes hwn yn gyrru'r gwelliannau gofynnol. Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda'r heddlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflenwi yn erbyn yr argymhellion ac yn parhau i ddatblygu yn y maes hwn.

Mae copi o'r ymateb hwn ar gael ar fy ngwefan.

Yr eiddoch yn gywir

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

## **Dafydd Llywelyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

Copi at: Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

**web** [www.dyfedpowys-pcc.org.uk](http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk) **twitter** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)  
**gwefan** [www.dyfed-powys.pcc.police.uk](http://www.dyfed-powys.pcc.police.uk) **trydar** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)